# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd/Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 20 Hydref 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 297(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel "swyddog cyfreithiol")

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

(15 munud)

[Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes]

**4 I'w gyflwyno fel Datganiad Ysgrifenedig - Datganiad gan y Prif Weinidog: Y sefyllfa bresennol o ran Cysylltiadau Rhynglywodraethol**

(0 munud)

**5 Datganiad gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Cyllid ar gyfer Bysiau**

(45 munud)

**6 I'w gyflwyno fel Datganiad Ysgrifenedig - Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Cynllun Drafft ar gyfer Trechu Tlodi Tanwydd yng Nghymru**

(0 munud)

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar eitemau 7-8 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:**

(30 munud)

**7 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020**

**NDM7435** [Rebecca Evans (Gwyr)]

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Hydref 2020.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 8 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) (Bangor) 2020

**NDM7434** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) (Bangor) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Hydref 2020.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 9 Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020

(15 munud)

**NDM7436** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Medi 2020.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 10 Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020

(15 munud)

**NDM7437** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Medi 2020.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog

(5 munud)

**NDM7442** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i), 12.22(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i ddadl ar NDM7441 gael ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 20 Hydref 2020.

## 11 Dadl: Coronafeirws

(90 munud)

**NDM7441** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd

1. Yn cydnabod difrifoldeb y sefyllfa a grëwyd gan y niferoedd cynyddol o achosion a difrifoldeb COVID-19 yng Nghymru a'r niferoedd cynyddol o bobl sydd yn yr ysbyty ac mewn Unedau Gofal Dwys o ganlyniad;

2. Yn cytuno y dylid cyflwyno 'cyfnod atal byr', fel y cynigiwyd gan y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) a Grŵp Cynghori Technegol Llywodraeth Cymru, er mwyn gostwng yr R, lleihau cadwyni o

drosglwyddiadau pellach, cyfyngu i'r eithaf ar glystyrau o haint yn y gymuned a chryfhau'r system Profi Olrhain Diogelu ymhellach;

3. Yn cytuno bod rhaid i gyfnod atal byr gael ei seilio ar gymorth ychwanegol i ddiogelu ffyrdd o fyw a llesiant ac yn nodi'r ddarpariaeth o gymorth ariannol brys a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer busnesau yr effeithiwyd arnynt gan y cyfnod atal byr.

**Cyd-gyflwynwyr**

Sian Gwenllian (Arfon)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.**

**Gwelliant 3** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod y tueddiadau diweddar yn nifer yr achosion o ganlyniad positif mewn profion COVID-19 yng Nghymru a nifer y bobl mewn ysbytai ac unedau gofal dwys sydd gyda COVID-19.

2. Yn mynegi siom ynghylch methiant Llywodraeth Cymru i gyhoeddi digon o ddata a thystiolaeth i ddangos bod cyfnod atal byr ar gyfer pob rhan o Gymru naill ai'n gymesur neu'n angenrheidiol.

3. Yn credu bod yn rhaid i unrhyw gyfyngiadau coronafeirws gael eu hategu gan gymorth i'r rhai yr effeithir yn andwyol arnynt, gan gynnwys cymorth i fusnesau, bywoliaeth a lles.

4. Yn croesawu'r cymorth ariannol digynsail gan Lywodraeth Ei Mawrhydi, gan gynnwys mwy na £4.4 biliwn i helpu i ymateb i heriau pandemig y coronafeirws.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailystyried ei strategaeth coronafeirws a mabwysiadu dull mwy penodol o ymyrryd.

**Gwelliant 4** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cytuno y dylid defnyddio'r capasiti presennol yn llawn ac y dylai'r adnoddau ychwanegol sy'n angenrheidiol gael eu darparu fel mater o frys i system profi olrhain diogelu Cymru er mwyn sicrhau bod yr holl ganlyniadau'n cael eu dychwelyd a bod timau olrhain yn cael gwybod am ganlyniadau positif o fewn 24 awr i gynnal brawf.

**Gwelliant 5** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cytuno y dylid defnyddio'r cyfnod atal byr fel cyfle i gynllunio a gweithredu cyfres newydd o ymyriadau yn seiliedig ar strategaeth lle bwriedir cael dim achosion o COVID-19 neu ddileu COVID-19 sy'n ceisio osgoi'r angen am donnau olynol o gyfyngiadau symud dros dro, gan ddefnyddio'r gwersi arfer gorau o Gymru ac yn rhyngwladol mewn meysydd fel, er heb fod yn gyfyngedig i: brofion torfol a rheolaidd gan gynnwys profi cysylltiadau asymptomatig; awyru; atal achosion rhag cael eu mewnforio o'r tu allan i Gymru; cymorth a chyngor ymarferol ac ariannol ar gyfer y rhai y mae angen iddynt ynysu; cyfathrebu cyhoeddus clir a chyson; ac ymestyn gwisgo mwgwd i sefyllfaoedd eraill.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd gwelliannau 6 a 7 a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.**

**Gwelliant 8** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu ei pholisïau rheoli heintiau mewn ysbytai ar gyfer atal heintiau COVID-19 a geir mewn ysbytai ac ystyried sefydlu safleoedd dynodedig lle bwriedir cael dim achosion o COVID-19 i hwyluso triniaeth amserol a diogel ar gyfer canser ac anhwylderau eraill sy'n bygwth bywyd.

## 12 Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2019-20

(60 munud)

**NDM7433** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2019-20.

Comisiynydd Plant Cymru: Adroddiad Blynyddol 2019-20

Comisiynydd Plant Cymru: Cyfrifon 2019-20

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd y gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.**

## 13 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 21 Hydref 2020

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 15/10/2020 i'w hateb ar 20/10/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

1 OQ55755

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth ariannol i brifysgolion?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

2 OQ55721

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i bractisau meddygon teulu yn ystod pandemig COVID-19?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

3 OQ55769

**(e)**

Pa gamau a gymerir i atal Bil Marchnad Fewnol y DU rhag cyfyngu ar ymdrechion Llywodraeth Cymru i drawsnewid llesiant pobl yng Nghymru?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OQ55740

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n hawlio credyd cynhwysol?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

5 OQ55770

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch ymestyn ac ehangu'r cynllun cadw swyddi ar gyfer ardaloedd sydd o dan gyfyngiadau lleol?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

6 OQ55749

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gymorth tai Llywodraeth Cymru i blant sy'n gadael gofal?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

7 OQ55766

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr yng Nghymru ar hyn o bryd?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

8 OQ55738

**(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Alun a Glannau Dyfrdwy?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

9 OQ55767

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am atal hunanladdiad yng Nghymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

10 OQ55728

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o lefelau presennol COVID-19 yng Nghasnewydd?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

11 OQ55751

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o nifer y bobl â COVID-19 mewn ysbytai yng Nghymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

12 OQ55768

**(w)**

Pa gymorth ariannol sydd ar gael i fusnesau sydd wedi eu gosod mewn ardaloedd diogelu iechyd lleol fel Bangor?

# Cwnsler Cyffredinol

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OQ55726

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion eraill y gyfraith ynghylch goblygiadau cyfreithiol Bil Marchnad Fewnol y DU?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

2 OQ55732

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion cyfraith eraill yn Llywodraeth y DU ynghylch gwneud newidiadau deddfwriaethol mewn perthynas â hawliau tramwy yng Nghymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

3 OQ55731

**(w)**

Pa asesiad y mae’r Cwnsler Cyffredinol wedi’i wneud ynghylch digonolrwydd y gyfraith i reoli ail gartrefi?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

4 OQ55730

**(w)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am benderfyniad Llywodraeth Cymru i ymyrryd fel parti yn ymdrechion Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i herio dyfarniad y llys gweinyddol yn achos Driver yn erbyn y cyngor hwnnw?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

5 OQ55723

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion eraill y gyfraith ynghylch datganoli deddfwriaethol llawn i Gymru mewn perthynas â chyfiawnder?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

6 OQ55722

**(e)**

Pa sylwadau cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cyflwyno ar ran Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Bil Marchnad Fewnol y DU?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OQ55727

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o beth fydd yr effaith ar gyfraith Cymru os na cheir cytundeb yn y trafodaethau ar Brexit?